**Cyngor Sir Ddinbych – Penderfyniadau a gymerwyd gan y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd , Dydd Gwener, 2 Hydref 2020**

| Eitem ar yr Agenda | Pwnc | Penderfyniad |
|---|---|---|
| **1** | YMDDIHEURIADAU | Cafwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorydd Joe Welch. |
| **2** | DATGAN CYSYLLTIAD | Dywedodd y Swyddog Monitro y byddai'n rhaid i bob aelod ddatgan cysylltiad personol yn Adroddiad Blynyddol Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol, gan ei fod yn pennu cyflogau'r Cyflogwyr.<br>Datganodd bob Cynghorydd oedd yn bresennol gysylltiad personol yn Adroddiad Blynyddol Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol 2020/21. |
| **3** | MATERION BRYS | Ni chodwyd unrhyw fater brys. |
| **4** | COFNODION | Dywedodd y Cynghorydd Rachel Flynn ei bod wedi anfon ei hymddiheuriadau i'r cyfarfod blaenorol ond nad oeddynt wedi cael eu cofnodi. Roedd cytundeb ar yr argymhelliad trwy gonsensws. Nododd holl aelodau'r Pwyllgor eu bod o blaid yr argymhelliad, ni nododd unrhyw un eu bod yn erbyn ac ni nododd unrhyw un eu bod yn dymuno ymatal. Felly:<br>***Penderfynwyd: - derbyn a chymeradwyo cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd a gynhaliwyd ar 04 Hydref 2019 fel cofnod cywir.*** |
| **5** | CYNLLUN ADFERIAD COVID-19 AR GYFER Y GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD | Roedd cytundeb ar yr argymhelliad trwy gonsensws. Ni chymerwyd pleidlais ffurfiol. Mynegodd aelodau'r Pwyllgor eu bod o blaid yr argymhelliad. Y Pwyllgor:<br><br>***<u>PENDERFYNODD:-</u>*** *yn amodol ar yr arsylwadau uchod, cefnogi'r cynllun adfer ar gyfer trefniadau democrataidd, fel yr amlinellir yn Atodiad 1 i'r adroddiad.* |
| **6** | ADRODDIAD BLYNYDDOL PWYLLGORAU CRAFFU'R CYNGOR 2019/2020 | Roedd cytundeb ar yr argymhelliad trwy gonsensws. Ni chymerwyd pleidlais ffurfiol. Nododd holl aelodau'r Pwyllgor eu bod o blaid yr argymhelliad, ni nododd unrhyw un eu bod yn erbyn. Felly: |

| Agenda Item No | Topic | Decision |
|---|---|---|
| | | ***PENDERFYNWYD:-*** *Bod y Pwyllgor Gwasanaethu Democrataidd yn nodi Adroddiad Blynyddol y Pwyllgorau Craffu ar gyfer 2019/20.* |
| **7** | ADRODDIAD BLYNYDDOL PANEL ANNIBYNNOL CYMRU AR GYDNABYDDIAETH ARIANNOL 2020 / 2021 | Gofynnodd yr aelodau bod rhagor o waith yn cael ei gynnal ar ddyrannu uwch gyflogau a chyflwyno'r gwaith yn ôl i'r pwyllgor yn ddiweddarach. Roedd cytundeb ar yr argymhelliad trwy gonsensws. Nododd holl aelodau'r Pwyllgor eu bod o blaid yr argymhelliad, ni nododd unrhyw un eu bod yn erbyn. Felly:<br><br>***PENDERFYNWYD -***<br><br>*I. Bod y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd yn nodi penderfyniadau Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol ar gyfer 2020/21 mewn perthynas â thalu cyflogau sylfaenol, uwch a dinesig a thaliadau i aelodau cyfetholedig.*<br><br>*II. Bod y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd yn nodiadau lefel y gefnogaeth sy'n cael ei rhoi i aelodau i ymgymryd â'u dyletswyddau, o ran 'Penderfyniadau' 9 a 10 yr Adroddiad Blynyddol.*<br><br>*III. Bod y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd yn gofyn i'r Grŵp 'Ffyrdd Newydd o Weithio' edrych ar ddyrannu uwch gyflogau ac adrodd yn ôl i'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd yn ddiweddarach.* |
| **8** | ADOLYGIAD BLYNYDDOL O GYDBWYSEDD GWLEIDYDDOL A PHENODI CADEIRYDDION Y PWYLLGORAU CRAFFU | Roedd cytundeb ar yr argymhelliad trwy gonsensws. Ni chymerwyd pleidlais ffurfiol. Nododd holl aelodau'r Pwyllgor eu bod o blaid yr argymhelliad, ni nododd unrhyw un eu bod yn erbyn. Felly: |

| Agenda Item No | Topic | Decision |
|---|---|---|
| | | ***<u>Penderfynwyd:-</u>* Bod y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd yn ystyried safle cydbwysedd gwleidyddol ar gyfer dyrannu seddi pwyllgor.** |
| **9** | AMSERLEN BWYLLGORAU 2021 | Roedd cytundeb ar yr argymhelliad trwy gonsensws. Ni chymerwyd pleidlais ffurfiol. Nododd holl aelodau'r Pwyllgor eu bod o blaid yr argymhelliad, ni nododd unrhyw un eu bod yn erbyn ac ni nododd unrhyw un eu bod yn dymuno ymatal.<br><br>***<u>Penderfynodd y Pwyllgor: -</u>*** *Bod y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd yn argymell wrth y Cyngor Llawn y dylid cymeradwyo'r amserlen bwyllgorau drafft ar gyfer 2021.* |
| **10** | RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL | Roedd cytundeb ar yr argymhelliad trwy gonsensws.<br>Ni chymerwyd pleidlais ffurfiol. Felly:<br>***PENDERFYNWYD – nodi rhaglen gwaith i'r dyfodol y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd.*** |
| **A1** | | |
| **A2** | | |